

## Newyddion gan Cymwysterau Cymru - Tachwedd 2019



# Cymwys ar gyfer y dyfodol

**Rydym wedi lansio ymdrech ymgynghori fawr i glywed barn y bobl am y cymwysterau sydd eu hangen ar gyfer y cwricwlwm newydd.**

Gyda chwricwlwm newydd i Gymru yn cael ei gyflwyno o 2022 ymlaen, mae'r ymgynghoriad 12 wythnos o'r enw **Cymwys ar gyfer y dyfodol** yn awgrymu egwyddorion a fydd yn llunio'r ystod o gymwysterau ar gyfer pobl ifanc 16 oed.

Mae'n rhan o'r strategaeth ehangach i gefnogi'r cwricwlwm newydd i Gymru 2022. Byddwn yn defnyddio'r ymatebion a gafwyd i lywio a chefnogi'r gwaith o ddatblygu a diwygio cymwysterau ar gyfer dysgwyr 16 oed.

Agorodd yr ymgynghoriad **ddydd Llun 18 Tachwedd 2019** a bydd yn cau **ddydd Gwener 7 Chwefror 2020**. Rydym am i chi ein helpu i gytuno ar yr egwyddorion arweiniol a fydd yn llunio cymwysterau yn y dyfodol.

## Cynhadledd Swyddog Arholiadau

Dyma manylion pellach am ein cynadleddau cyntaf erioed ar gyfer swyddogion arholiadau, a gynhelir yng Nghanoelfan Fusnes Conwy ar 28 Ionawr a Gwesty'r Village yng Nghaerdydd ar 21 Ionawr.

Bydd y ddau yn cynnwys neges gan y Gweinidog Addysg, Kirsty Williams a chyfraniadau gan ein Prif Weithredwr, Philip Blaker a'n Tîm Cysylltiadau Allanol. Bydd JCQ yn camu i'r prif lwyfan yn y prynhawn a bydd digon o gyfleoedd i rwydweithio. Bydd dau weithdy i'w mynychu a dyma'r dewisiadau.

#### **GWEITHDY 1**

Corff Dyfarnu: CBAC

Pwnc: Camymddwyn / Arolygu

Cyflwynir gan: Ffion Lloyd - Cyfarwyddwr Cynorthwyol

#### **GWEITHDY 2**

Corff Dyfarnu: Pearson

Pwnc: Profion sgrin sgrin BTEC

#### **GWEITHDY 3**

Corff Dyfarnu: OCR

Pwnc: Cynllunio Wrth Gefn

Cyflwynir gan: Alison Leather - Rheolwr Cymorth i Gwsmeriaid

**Mae lleoedd yn gyfyngedig yn y ddau leoliad, felly archebu'n gynnar.**

## **Mae ein Hadroddiad Blynyddol ar gael nawr**

Rydym wedi cyhoeddi ein pedwerydd **Adroddiad Blynyddol** yr wythnos hon, yn disgrifio ein gwaith ac yn rhoi manylion am sut rydym wedi gwneud gwahaniaeth i ddysgwyr, a'r system addysg yng Nghymru dros y flwyddyn ddiwethaf.

Mae'r adroddiad yn rhestru nifer fawr o weithgareddau rhwng Medi 2018 ac Awst eleni, gan gynnwys dechrau gweithio ar y cymwysterau ar gyfer y cwricwlwm newydd; adeiladu mwy o ymwybyddiaeth o'r Dystysgrif Her Sgiliau; cwblhau adolygiad cynhwysfawr o gymwysterau diogelwch bwyd a pharhau i ddatblygu ein hadolygiadau sector i gymwysterau galwedigaethol.

Dywed ein Prif Weithredwr, Philip Blaker: "Rydym yn chwarae rhan bwysig yn y system addysg yng Nghymru – gan sicrhau tegwch i ddysgwyr yn y gorffennol, y presennol a'r dyfodol, a magu hyder yn y system addysg. Drwy ein gwaith rydym yn anelu at wneud y peth iawn am y rhesymau cywir, gan roi anghenion dysgwyr yn gyntaf."



## Beth yw eich barn am y cymwysterau Iechyd a Gofal Cymdeithasol newydd?

Lansiwyd cam cyntaf y cymwysterau newydd mewn Iechyd a Gofal cymdeithasol, a gofal plant ym mis Medi ac rydym yn awyddus i glywed eich barn.

Rydym yn gwahodd athrawon ac aseswyr i ddweud wrthym beth maent yn ei feddwl drwy gwblhau [holiadur ar-lein](#) byr. Mae holiadur hefyd ar gyfer dysgwyr sy'n dilyn y cymwysterau newydd.

Dylai'r holiaduron gymryd tua phum munud i'w cwblhau ac maen nhw'n ddiennw. Efallai y bydd yr adborth a dderbyniwn yn ein helpu i lywio ein gwaith o fonitro'r cymwysterau newydd hyn yng Nghymru.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar ein gwefan.

## Cwblhewch ein harolwg technoleg ddigidol

**Mae amser o hyd i chi gwblhau ein harolwg ar y cymhwyster TGAU Technoleg Ddigidol newydd.**

Bydd y cymhwyster ar gael i'w addysgu am y tro cyntaf o fis Medi 2021, a gallwch ddweud eich dweud drwy gwblhau ein [harolwg ar-lein](#) sydd ar agor tan 29 Tachwedd.

Rydym wedi cyhoeddi Meini Prawf Cymeradwyo drafft ar gyfer y cymhwyster hwn, sy'n nodi'r trefniadau cynnwys ac asesu lefel uchel y bydd angen i gyrff dyfarnu eu bodloni wrth ddatblygu manylebau ar gyfer y cymhwyster.

Datblygwyd y meini prawf hyn yn dilyn trafodaethau â rhanddeiliaid ac mewn ymateb i ganfyddiadau ein hadolygiad o gymwysterau yn y sector TGCh, [Digidol i'r Dyfodol](#), a gyhoeddwyd gennym ym mis Rhagfyr 2018.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau, cysylltwch â ni yn [development@qualificationswales.org](mailto:development@qualificationswales.org).

## Beth yw eich barn chi am asesu di-arholiad?

**Hoffem i gynifer o athrawon â phosibl gymryd rhan mewn trafodaeth grŵp ffocws am eu canfyddiadau a'u profiadau o gyflwyno ac asesu asesiadau di-arholiad (NEA).**

Y pynciau TGAU rydym eisiau gwybod amdany'n nhw yw Dylunio a Thechnoleg; Bwyd a Maeth; Ffrangeg, Almaeneg a Sbaeneg; Hanes; Astudio'r Cyfryngau; Cerddoriaeth a Chymraeg Ail Iaith.

Bydd grwpiau ffocws pwnc-benodol yn cael eu cynnal mewn lleoliadau ar draws Cymru o hyn hyd at Ionawr 2020. Os ydych yn dysgu manyleb TGAU CBAC un o'r pynciau yma mewn ysgol uwchradd a gynhelir,

coleg addysg bellach (AB), Uned Cyfeirio Disgyblion (UCD) neu ysgol annibynnol yng Nghymru, byddem yn falch iawn o glywed eich barn.

I gael rhagor o wybodaeth ac i gofrestru i fynychu grŵp ffocws, cliciwch [yma](#).

To subscribe to our mailing list for the Slate, please click [here](#).

I danysgrifio i'n rhestr bost ar gyfer Y Llechen, cliciwch [yma](#).

**Y Llechen: cylchlythyr Cymwysterau Cymru i'r sector addysg**  
**The Slate: Qualifications Wales's monthly newsletter for the education sector**

Gallwch chi ein dilyn ar gyfryngau cymdeithasol i weld  
y newyddion diweddaraf am ein gwaith:  
You can follow us on social media for the latest news on our work:



*Copyright © 2019 Qualifications Wales All rights reserved.*

**Contact us:**

[comms@qualificationswales.org](mailto:comms@qualificationswales.org)

Click [here](#) to unsubscribe or to change your Subscription Preferences.